# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Ionawr, 2025 |
| **Aelodau Cabinet:** | Cyng. Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Sian Edith Jones, Pennaeth Cynorthwyol Pobl Hyn |
| **Teitl yr Eitem:** | Trefniadau gofal dydd yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog a Cricieth |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Nid oes gwasanaethau gofal dydd wedi eu cynnig yn Y Ganolfan, Blaenau Ffestiniog nag yn Encil y Coed, Criccieth ers cyn cyfnod Covid. Gofynnir am benderfyniad ffurfiol yn:-

Cytuno fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dirwyn i ben defnydd Y Ganolfan, Blaenau Ffestiniog ac yn Encil y Coed, Criccieth ar gyfer darparu eu gwasanaethau.

Cefnogi bwriad yr Adran i barhau i gydweithio gyda grwpiau cymunedol a'r 3ydd sector i gefnogi unigolion yn yr ardaloedd yma yn eu cartrefi a thrwy ddefnyddio a chefnogi datblygiad gwasanaethau amgen o fewn y cymunedau.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Cyflwynwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar 1 Ebrill 2016, ac mae'n darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Ddeddf wedi newid y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu, a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan hyrwyddo amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael o fewn y gymuned i leihau'r angen am gymorth ffurfiol. Nid yw'r model traddodiadol o ddarparu gofal dydd yng Ngwynedd wedi ei addasu i gyfarch anghenion y Ddeddf a sicrhau beth sy'n bwysig i drigolion Gwynedd. Mae'r model presennol wedi bod yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gofal ar gyfer pobl mewn adeiladau yn hytrach na chefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth i barhau i fynychu gweithgareddau cymunedol. Nid yw ein gwasanaethau gofal dydd bob amser yn llwyddo i gwrdd ag amcanion unigol a phersonol unigolion ac mae tuedd wedi bodoli o 'ffitio' pobol i wasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu gwasanaethau dydd ac ysbaid yn bennaf yn sgil argyfwng Covid 19. Mae eu casgliadau yn nodi bod y pandemig wedi arwain at ddiwygiadau hanfodol i'r ddarpariaeth, ac yn adnabod llawer o faterion allweddol wrth symud ymlaen. Roedd y model yn anaddas iawn ac yn cyflwyno llawer o risgiau yng nghyfnod Covid, ac o ganlyniad roedd rhaid cau'r canolfannau. Byddai dod a nifer fawr o bobl at ei gilydd i un safle wedi achosi pryder mawr, ac roedd problemau gyda safon rhai o'r adeiladau hynny hefyd.

Mae'r adolygiad yng Ngwynedd wedi bod yn gyfle i ystyried ffyrdd gwahanol, mwy addas a hyblyg o ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau dydd o ansawdd sydd hefyd yn cynnig gwerth am arian.

Cyflwynwyd adroddiad ar y bwriad i adolygu darpariaeth gwasanaethau gofal dydd i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 23ain Tachwedd 2023. Yng nghyd-destun yr angen i ymdrechu i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu cynnig ar draws y Sir, cefnogodd y pwyllgor y bwriad i gynnal adolygiad llawn o'r ddarpariaeth bresennol ac ystyried model amgen. Gofynnwyd i'r swyddogion sicrhau bod y model newydd yn darparu gwasanaeth cyson ar draws y sir gan gynnwys gwasanaeth i rai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'n fwriad cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar y modelau/darpariaeth ymhob ardal pan yn amserol er mwyn rhoi cyfle i'r craffwyr roi mewnbwn pellach.

## 3 CYFLWYNIAD

### Y sefyllfa bresennol – Y model traddodiadol

Dros y blynyddoedd, arferai'r Cyngor ddarparu rhaglen o weithgareddau gofal dydd traddodiadol mewn lleoliadau penodol yn y sir ar gyfer oedolion oedd angen cefnogaeth gan staff proffesiynol. Roedd y canolfannau yma yn galluogi pobl hŷn i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau penodol gan hefyd roi cyfle i'r sawl oedd yn gofalu amdanynt o ddydd i ddydd gael ychydig o seibiant. Roedd y ddarpariaeth wedi ei gyfyngu i leoliadau mewn prif ganolfannau, ar amseroedd penodol, gyda bwydlen o weithgareddau eithaf cyfyng. Byddai'n rhaid i unigolion deithio i mewn i'r canolfannau yma, ac roedd trafnidiaeth yn cael ei drefnu ar eu cyfer. Roedd canllaw mynediad i wasanaeth traddodiadol y Cyngor yn nodi fod angen i'r unigolyn fod gydag anghenion gofal personol neu anghenion yn ymwneud a chyflyrau cof i fynychu gwasanaethau'r Cyngor. Os mai anghenion llesiant lefel isel sydd ei angen megis cwmnïaeth, cymdeithasu, pryd o fwyd, yna mae disgwyliad i ddarpariaeth gymunedol/trydydd sector gwrdd â'r angen.

Dyma'r darpariaethau oedd yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd cyn y pandemig:

| **1.**<br>**Canolfannau Dydd Cyngor Gwynedd** | **2.**<br>**Gofal dydd sy'n cael ei gomisiynu.** | **3.**<br>**Darpariaeth seibiannau byr sydd ar gael** | **4.**<br>**Darpariaeth Gofal dydd arbenigol Dementia** |
|---|---|---|---|
| Bryn Dysynni Tywyn – x 3 gwaith yr wythnos.<br><br>Plas Hedd Bangor x 3 gwaith yr wythnos.<br><br>Encil y Coed x 3 gwaith yr wythnos.<br><br>Y Ganolfan Blaenau Ffestiniog x 3 gwaith yr wythnos. | Gwasanaeth gofal dydd yng nghartrefi preswyl y Cyngor.<br><br>Gwasanaeth gofal dydd mewn cartrefi preswyl preifat. | Gweithwyr Cefnogol Dementia - cefnogaeth un i un ar gyfer unigolion a'i gofalwyr am ychydig oriau'r wythnos.<br><br>Cartrefi preswyl y cyngor yn darparu cefnogaeth gofal ysbaid hyd at bythefnos. | Plas Hedd Bangor x 2 gwaith yr wythnos (CG&BIBC).<br><br>Hafod Hedd, (Bryn Beryl) x 3 diwrnod yr wythnos (CG a BIBC) a Canolfan Iechyd Blaenau Ffestiniog. |

Nid oes newid sylweddol wedi bod yn y ddarpariaeth a nodir yng ngholofnau 2, 3 a 4 yn y tabl uchod.

Dylid hefyd nodi bod 3 Canolfan Ddydd 'traddodiadol' wedi cau yn y blynyddoedd cyn Covid -

• Canolfan Dydd Cysgod y Coleg, Bala, gyda Age Cymru wedi datblygu gwasanaethau llesiant yn yr ardal

- Canolfan Dydd Noddfa Madog, Porthmadog
- Canolfan dydd Maesincla, Caernarfon

Mae canolfannau dydd Plas Hedd (Bangor) a Bryn Dysynni (Tywyn) wedi ail agor ers Covid ac mae gofal dydd ar gael ym Mhlas Y Don (Pwllheli) erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau yma wedi eu hadolygu a bellach mae'r gwasanaethau a gynigir dan reolaeth y cartrefi preswyl a nid ydynt yn wasanaethau ar wahân. Er bod y ddarpariaeth ychydig yn fwy na darpariaeth gynigir yng nghartrefi preswyl eraill y Cyngor, mae'r trefniadau rheoli a llywodraethu bellach yn gyson. Dylid hefyd nodi bod y gwasanaethau ar draws yr holl gartrefi preswyl yn wynebu rhwystrau oherwydd problemau staffio.

Mae'n bwysig cofio bod y gwasanaethau dydd oedd a sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor yn wasanaeth 'gofal' a 'goruchwyliaeth' i unigolion gydag anghenion gofal a chefnogaeth dwys.  Nid yw'n ddarpariaeth drws agored ac anffurfiol i unrhyw un fynychu a bod meini prawf penodol i fod yn gymwys, yn ddibynnol ar asesiad o anghenion gan weithiwr cymdeithasol a bod hyn yn drefniant statudol drwy'r Cyngor yn benodol.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Nid yw darpariaeth Encil y Coed a Canolfan Blaenau Ffestiniog wedi ail agor ers cyfnod Covid.

Mae ymateb i'r heriau sydd wedi glanio ar ein drws ffrynt yn sgîl Covid 19 wedi rhoi'r cyfle i ni ail feddwl y ffordd mae gofal dydd yn cael ei ddarparu yma yng Ngwynedd. Mae'r cyfnod wedi dangos pa mor bwysig yw sicrhau cyfleoedd cymdeithasol i unigolion, ac i sicrhau seibiannau byr o ofalu i ofalwyr di-dâl. Mae'n gyfle i ddysgu o'n profiadau ni ac eraill, ac i symud i ffwrdd o wasanaethau sydd yn seiliedig ar anabledd ac oedran ac i edrych ar gyfleoedd i unigolion adennill cysylltiadau cymunedol a fydd hefyd yn gwireddu ein pwrpas:-

### 'Helpu fi i fyw fy mywyd fel dwi'n dymuno ei fyw.'

Mae datblygiadau'r hybiau cymunedol ar hyd a lled y sir wedi arwain at gyfleoedd i bawb fod yn cydweithio ar lefel llawer mwy lleol.

Ceir sawl esiampl o grwpiau/gweithgareddau sydd wedi eu datblygu gan yr hybiau i fynd i'r afael â'r anghenion y mae nhw yn ei adnabod yn lleol. Dros y flwyddyn/18 mis diwethaf, mae patrwm o ddatblygu darpariaethau ar gyfer pobl hyn yn bendant i'w weld yn dwyn ffrwyth ar lefel lleol yn ein cymunedau. Mae yna nifer o hybiau yn cynnig sesiynau 'paned a sgwrs', clybiau cinio a grwpiau gweithgareddau yn benodol ar gyfer pobl hyn yn eu cymunedau. Lle mae hwb efo cynllun trafnidiaeth gymunedol, mae'r ased yma yn ychwanegu at eu cynnig drwy ddarparu gwasanaeth cludiant i bobl i'r lleoliad ac adref. Ceir enghreifftiau o hybiau yn cyd weithio i gynnig trafnidiaeth i bobl fynychu. Yn ogystal â hyn, mae yna gydweithio agos rhwng yr hybiau a gwasanaeth Dementia Actif Gwynedd. Mewn sawl ardal, mae staff yr hwb yn cefnogi'r ddarpariaeth drwy fod yn rhan o'r sesiynau neu yn cefnogi efo cludiant pobl i'r sesiynau. Mae'n rhaid nodi mai darpariaeth drwy gyllidebau grant amrywiol ydi gweithgareddau'r hybiau a gan amlaf mae rhain yn grantiau byr dymor sy'n aml yn peri risg i gynaliadwyedd y gweithgareddau.

Yn Blaenau Ffestiniog, Y Dref Werdd sy'n cydlynu yr Hwb. Maent wedi bod yn cynnig grŵp i bobol hyn unwaith y mis yn y gofod lle arferai y Gofal Dydd gael ei ddarparu yn y Ganolfan Gymunedol. Mae'n gyffroes iawn hefyd medru rhannu fod yna ddatblygiadau positif iawn ar y gweill ac fe fydd y ddarpariaeth yma gan Y Dref Werdd yn cael ei gynnig dwy waith y mis yn ogystal a gwaith pontio'r cenedlaethau ar y cyd efo Ysgol y Moelwyn unwaith y mis. Mae y Dref Werdd hefyd yn cychwyn cynnig grŵp cymorth Parkinson's i gefnogi unigolion a'i teuluoedd sy'n byw efo'r cyflwr.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod yna ddatblygiad hwb newydd wedi ei sefydlu ym Mhorthmadog yn ddiweddar iawn ac rydym yn awyddus iawn i gydweithio a dysgu mwy am y datblygiad newydd yma.

Y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau Oedolion, Iechyd a Llesiant yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw. Gan fod anghenion pob unigolyn a'u teulu / gofalwyr yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant, mae angen i ni addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Byddwn hefyd yn buddsoddi i ddatblygu darpariaeth i gael mwy o seibiant i unigolion a'u teulu neu ofalwyr yn ein canolfannau preswyl.

Y bwriad (a'r cyfle) yma yw sicrhau bod mwy o ddewis a rheolaeth ar gael i bobl dros eu gofal a chefnogaeth, a'r gobaith bod hyn yn fwy tebygol o gwrdd â'u anghenion â'u deilliannau personol ac unigol. Byddai hyn hefyd yn annog a chynnal annibyniaeth a chyfranogaeth cymdeithasol. Bydd gofal a chefnogaeth personol yn cael ei alluogi drwy asesiadau person-ganolog yn seiliedig ar gryfderau. Mae cyfle yma hefyd i gynnig darpariaeth o gyllideb unigol drwy daliadau uniongyrchol i bobl drefnu darpariaeth o'u dewis a byw fel y maent yn dymuno.

## Beth sy'n cael ei gynnig fel darpariaeth amgen yn ardaloedd Criccieth a Blaenau Ffestiniog?

Fel rhan o'r adolygiad, mae'r gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu ar drefniadau darpariaeth gofal dydd yng Ngwynedd ac mewn trafodaethau cyson gyda'r Uned Gomisiynu ar Rheolwr Cefnogi Iechyd a Llesiant ar fapio darpariaethau cymdeithasol lleol yn y ddwy ardal.

Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol wedi cysylltu'n uniongyrchol gyda'r bobl oedd yn arfer mynychu canolfannau Criccieth a Blaenau Ffestiniog a chadarnhau bod amgylchiadau y mwyafrif o'r mynychwyr gwreiddiol bellach wedi newid a rhai wedi ein gadael.

Yng nghyd-destun y bwriadau ar gyfer Encil y Coed, Criccieth, cynhaliwyd cyfarfod ym mis Tachwedd 2024 gyda'r Cynghorydd lleol. Trafodwyd bod unigolion a'u gofalwyr yn ffafrio cefnogaeth mwy pwrpasol (bespoke) yn hytrach na mynychu canolfan gyda gweithgareddau traddodiadol. Yn gadarnhaol iawn, mae cymuned Criccieth yn llwyddo i gynnal gweithgareddau eu hunain ac ymddengys nad oes cymaint o alw am ddarpariaeth gofal dydd traddodiadol yno erbyn hyn. Mae teimlad bod mwy o angen yng Nghricieth am hwb gwybodaeth lleol, i alluogi pobl i gael mynediad rhwydd at wybodaeth am wasanaethau cefnogol yn yr ardal. Mae gwaith ar y gweill gyda'r gymuned lleol i edrych ar sut gellir sefydlu darpariaeth neu sustem wybodaeth hwylus i bobl Cricieth o fewn adnoddau presennol yr ardal. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i drafod opsiynau partneriaethau gyda'r trydydd sector, Grŵp Cynefin a Darparu Mewnol ar gyfer gwneud defnydd o safle Tai Gofal Ychwanegol Hafod Y Gest, Porthmadog.

Yng nghyd destun Canolfan Blaenau Ffestiniog, rhai misoedd yn ôl cafwyd sgwrs gyda'r aelod lleol a cafwyd trafodaethau yn ystod Tachwedd 2024 gyda aelodau Ymddiriedolaeth/Pwyllgor Canolfan Cymunedol Blaenau Ffestiniog. Mynegwyd rhai pryderon am effaith posib ar drigolion ardal Ffestiniog, yn benodol yr unigolion bregus sy'n profi unigrwydd a prinder darpariaeth cymdeithasol ar eu cyfer. Nodwyd bod Y Dref Werdd yn cynnig darpariaeth cymdeithasol i drigolion yr ardal sy'n wynebu unigedd.

Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda aelodau'r Ymddiriedolaeth yn fuan yn 2025 yn dilyn eu trafodaethau gyda'r Tîm Cefnogi Cymunedau am sefyllfa'r ganolfan i'r dyfodol. Ar sail y darlun llawn hwnnw, bydd cyfle i ystyried opsiynau pa gymorth y gall y Cyngor ei gynnig gan gynnwys hwyluso'r gallu i gydweithio gyda mentrau lleol i sefydlu darpariaeth gymunedol/gymdeithasol eu hunain.

Mae'r Adran hefyd yn parhau i ymdrechu i recriwtio a chryfhau gwasanaethau yn Bryn Blodau gyda'r gobaith o ail-ddechrau rhywfaint o ddarpariaeth gofal dydd rhai diwrnodau'r wythnos.

**Cyffredinol**

Ar hyn o bryd mae cefnogaeth amgen i ofal dydd yn y ddwy ardal yn cael ei gynnig drwy gyfuniad o wasanaeth gofal cartref, gwasanaeth cefnogol dementia, gofal dydd arbenigol gan Iechyd (Canolfan Iechyd Blaenau Ffestiniog a Hafod Hedd, Bryn Beryl) gweithgareddau wythnosol Dementia Actif, sesiynau gan y Dref Werdd ac Age Cymru.

Gellir hefyd cadarnhau bod menter leol newydd wedi bod mewn cyswllt yn ddiweddar. Maent yn gobeithio cynnig gweithgareddau dydd i bobol dros 65 oed gyda dementia neu gyflwr iechyd tymor-hir yn ardal Llŷn ac Eifionydd. Maent yn bwriadu defnyddio cyfleusterau sydd eisoes ar gael mewn hybiau cymunedol lleol, yn Hwb Heli ym Mhwllheli a Chlwb pêl-droed Y Traeth ym Mhorthmadog. Maent yn fodlon darparu gweithgareddau dydd mewn gwahanol leoliadau ac ar ddyddiau gwahanol mewn sawl cymuned leol. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda hwy yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

### Y cyd-destun ariannol.

Mae'n bwysig pwysleisio eto nad y cyd-destun ariannol ydi'r prif reswm dros yr argymhellion i newid gwasanaethau dydd yn ardaloedd Criccieth a Blaenau Ffestiniog. Mae rhan ddechreuol yr adroddiad hwn yn amlinellu'n glir y rhesymeg deddfwriaethol, lles, ansawdd gwasanaethau a moesegol dros gynnig newidiadau. Fodd bynnag, ni ellir diystyru'r cyd-destun cyllidol ychwaith. Mae gwasanaethau gofal yn gyffredinol yn wynebu heriau cyllidol yn ymwneud yn bennaf ag arbedion i'w canfod a thoriadau i'w gwneud oherwydd crebachu cyllidebau awdurdodau lleol, yr heriau moderneiddio a chynnydd yn y galw. Mae'r adroddiad Llechen Lan a gyflwynwyd i'r Cabinet yn yr Hydref ac sydd wedi cael cryn sylw yn y wasg genedlaethol yn ddiweddar wedi amlygu'r heriau yma ar gyfer gwasanaethau gofal pobl hyn yn benodol.

Byddai gweithredu ar yr argymhelliad i ddirwyn i ben defnydd Y Ganolfan, Blaenau Ffestiniog ac Encil y Coed, Criccieth ar gyfer darparu gwasanaethau gofal dydd i bobl hyn yn cadarnhau swm o hyd at £182,690 tuag at arbedion i'w canfod.

Tra bod hynny yn swnio yn ergyd fyddai'n creu problemau pellach i wasanaethau pobl hyn, credir bod yr hyn argymhellir yn yr adroddiad hwn yn un o'r cynigion prin hynny sydd yn cynnig gwell darpariaeth gwasanaeth ac yn cynnig mwy o ddewis i unigolion, tra hefyd yn cyfrannu tuag at ymateb i'r heriau ariannol.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Nid yw'r canolfannau dydd yng Nghricieth na Blaenau ar agor ers 5 mlynedd gyda'r unigolion sydd angen cefnogaeth yn derbyn gwasanaethau a/neu gefnogaeth amgen. Bydd y gwasanaethau'n dod i ben yn ffurfiol yn dilyn penderfyniad y Cabinet. Bydd y Cyngor yn adnabod a datblygu cyfleoedd pellach i gydweithio gyda phartneriaid eraill ymhellach, a chynnig amrywiaeth o wasanaethau gwahanol. Byddai'r ffocws ar adeiladu ar gryfderau'r mynychwyr, cryfhau sgiliau a dysgu sgiliau newydd, a rhoi blas ar brofiadau newydd.

Bydd y Cyngor yn parhau i wneud defnydd o adnoddau a gwasanaethau lleol a gweithio gyda'r cymunedau a'r 3ydd sector i gefnogi datblygiad hybiau a mentrau all gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau all gefnogi pobl i fyw eu bywydau gorau o fewn eu cymunedau.

Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gyda'r ymdrech i geisio sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleon sy'n cefnogi pobl hyn yn gytbwys ar draws y Sir.

## 6 SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

### Prif Swyddog Cyllid

"Nodaf sylw'r awdur nad cyflawni arbedion ariannol yw nod y penderfyniadau a geisir. Serch hynny, mae'r heriau a phwysau ariannol ar y gwasanaethau gofal yn wybyddus i aelodau'r Cabinet; rwyf yn fodlon fod y penderfyniadau a geisir yn rhesymol o dan yr amgylchiadau a nid oes gennyf wrthwynebiad iddynt."

### Swyddog Monitro

"Mae'r adroddiad yma yn cadarnhau sefyllfa sydd wedi deillio yn uniongyrchol o amgylchiadau 2020. Mae'r hyn y gynigir yn rhoi cyfle i'r Cabinet adolygu hyn a dod i benderfyniad ar y sefyllfa."

## 7 ATODIADAU

**1.** Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol.

**2.** Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015